# Cofnodion

## Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Gwener, 1 Rhagfyr 2023 |
| Amser: | 10.00 am |
| Bresennol: | Cynghorwyr P Hourahine (Cadeirydd), G Horton, S Cocks, M Evans and L James |
| Yn bresennol: | Rhys Cornwall (Cyfarwyddwr Strategol - Trawsnewid a Chanolfan Gorfforaethol), Kevin Howells (Uwch Bartner Busnes AD a Datblygu Sefydliadol), Tracy McKim (Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid), Leanne Rowlands (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Chofrestr Etholiadol), Samantha Schanzer (Cynghorydd Craffu) a Simon Richards (Swyddog Llywodraethu) |
| Ymddiheuriadau: | Cynghorwyr B Davies, P Bright and C Baker-Westhead |

---

1 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

2 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar **26 Hydref 2023 yn gofnod gwir a chywir.**

- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd unrhyw ymateb pellach wedi bod gan Brifysgol De Cymru. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Trawsnewid a Chorfforaethol nad oedd unrhyw wybodaeth newydd. Nododd y Pwyllgor eu siom.

3 **Cynllun Pobl 2023-2028**

**Gwahoddedigion:**
- **Rhys Cornwall (Cyfarwyddwr Strategol – Trawsnewid a Chorfforaethol)**
- **Tracy McKim (Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid)**
- **Kevin Howells – Rheolwr AD a DS**

Cyflwynodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid (PPT) yr adroddiad, a rhoddodd y Rheolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol grynodeb yn amlinellu y byddai recriwtio a chadw staff yn ffocws allweddol.

Trafodwyd y canlynol:

- Nododd y Pwyllgor nad oedd llinellau amser wedi'u crybwyll o fewn y Cynllun. Dywedodd y Rheolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol wrth y Pwyllgor y byddent yn monitro'r Cynllun drwy gydol y cyfnod a byddai monitro cynnydd yn digwydd o dan Gynlluniau Ardaloedd Gwasanaeth.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar sut y byddai'r Cynllun yn gweithio'n ymarferol a sut y blaenoriaethwyd camau gweithredu. Cynigiodd y Pwyllgor y dylid gwahanu camau gweithredu a mesurau. Dywedodd Rheolwr AD a DS wrth y Pwyllgor y byddai'n rhaid gwerthuso, blaenoriaethu a mesur camau gweithredu yn ystod y Cynllun.

- Cydnabu'r Pwyllgor fanteision a heriau gweithio gartref i ddiwylliant staff a gofynnodd sut y byddai hyn yn cael ei reoli. Amlygodd y Rheolwr AD a DS er bod y pandemig wedi ysgogi cynnydd yn nifer y staff sy’n gweithio gartref, nid oedd nifer helaeth o staff y tu allan i'r gwasanaethau canolog yn gwneud y newid hwn oherwydd natur eu gwaith. Hysbyswyd y Pwyllgor bod y polisïau Normal Newydd wedi'u hymgorffori ers tua 12 mis a nodwyd ei fod yn ymwneud â dod o hyd i gydbwysedd rhwng staff a gwasanaethau, gan ystyried anghenion y gwasanaeth a lles gweithwyr. Cadarnhaodd y Rheolwr AD a DS fod Archwilio Cymru wedi adolygu'r gweithlu a'r broses asedau, gan roi adborth cadarnhaol a bod Cyngor Dinas Casnewydd (CDC yn ystyried y ffordd orau o fesur ac adlewyrchu'r llwyddiant hwnnw).
  Dywedodd y Rheolwr AD a DS wrth y Pwyllgor fod cydbwysedd rhwng bod yn gyflogwr o ddewis sy'n cynnig trefniadau gweithio hyblyg gyda’r gallu i reoli materion lles a chyswllt posibl. Dywedodd Pennaeth PPT wrth y Pwyllgor eu bod wedi sefydlu fframwaith o amgylch ymgysylltu, sioeau teithiol cyfarwyddiaethol, trafodaethau gwasanaeth, gwiriadau a sgyrsiau un-wrth-un gan fod ymgysylltu cyson yn bwysig pan oedd staff yn gweithio gartref ac mewn amgylcheddau eraill. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor eu bod wedi ceisio bod yn bragmatig a hyblyg yn ystod ac ers hynny. Fe wnaethant hysbysu'r Pwyllgor eu bod yn ymwybodol o'r problemau lles, budd a datblygu tîm posibl yn sgil gweithio gartref. Fe wnaethant hysbysu'r Pwyllgor, er nad oedd llawer o staff yn gallu gweithio gartref, bod angen iddynt wneud penderfyniadau teg a chynyddu arweinyddiaeth weladwy. Fe wnaethant hysbysu'r Pwyllgor bod nifer yr ymwelwyr yn y Ganolfan Ddinesig bellach yn debyg i'r lefelau cyn y pandemig.

- Gwnaeth y Pwyllgor rai argymhellion i'r swyddogion ar gyflwyno'r adroddiad a gofynnodd am gynnwys mwy o fanylion ynghylch themâu. Holodd y Pwyllgor a oedd angen Asesiadau o’r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb llawn o’r adroddiad. Dywedodd Pennaeth PPT wrth y Pwyllgor eu bod wedi trafod sut i gyflwyno'r asesiad a phenderfynu ei gynnwys o fewn yr agenda a darparu dolen iddo ar-lein.

**Casgliadau:**

- Argymhellodd y Pwyllgor wella cyflwyniad y Cynllun a gwahanu Camau Gweithredu a Mesurau Llwyddiant yn ddwy golofn ar wahân.

- Argymhellodd y Pwyllgor grynhoi'r asesiad a chreu dolen iddo o fewn yr adroddiad.

4 **Adroddiad Blynyddol Craffu 2022-23**

**Gwahoddedigion:**

- **Leanne Rowlands – Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol**

Cyflwynodd y Rheolwr Democrataidd ac Etholiadol yr adroddiad i'r Pwyllgor.

Trafodwyd y canlynol:

- Diolchodd y Pwyllgor i'r swyddogion am eu hamser.
- Myfyriodd aelod o'r Pwyllgor ar lefelau ymgysylltu â'r cyhoedd a sut y gellid annog hyn ymhellach. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol wrth y Pwyllgor, mewn ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi datblygu Strategaeth Cyfranogiad a fabwysiadwyd yn y Cyngor. Roedd y strategaeth yn ceisio adlewyrchu'r arfer da sydd eisoes wedi'i ymgorffori yng ngwaith y Cyngor, ond roedd hefyd yn ceisio adeiladu ar y sylfaen hon i barhau i wella ymgysylltiad a chyfranogiad.
- Holodd y Pwyllgor sut y gallent gael gwybod am rhannau o fewn y Cyngor a'u monitro lle gallai fod angen ymchwilio ymhellach. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor y byddai modd gofyn am grynodeb o ystyriaethau a chanlyniadau gan bob Pwyllgor Craffu yng nghyfarfod nesaf y Cadeirydd fel rhan o ddatblygu Blaenraglenni Craffu a Gwaith i'r Dyfodol.
- Nododd y Pwyllgor nad oedd penderfyniadau Aelodau Cabinet yn cael eu monitro ac y gallai hynny adael bwlch o ran tynnu sylw at feysydd ar gyfer Craffu. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol wrth y Pwyllgor nad oedd hyn yn rhan o rôl Craffu, fodd bynnag, ystyrir hyn gan bwyllgorau eraill fel rhan o'r fframwaith llywodraethu cyffredinol. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol y byddai hyfforddiant i aelodau ar y trefniadau llywodraethu a'r fframwaith ehangach yn cael ei ystyried. Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai hyfforddiant ar sut y rheolir risg a pherfformiad hefyd yn cael ei gynnig yn 2024.
- Gofynnodd aelod o'r Pwyllgor a oedd cyfarfodydd rheolaidd y Cadeirydd wedi digwydd a pha mor aml yr oedden nhw'n cyfarfod. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol wrth y Pwyllgor eu bod yn cyfarfod bob chwarter.
- Roedd y Pwyllgor yn hapus i weld mwy o gydweithrediad rhwng Pwyllgorau.

**Casgliadau:**

- Argymhellodd y Pwyllgor newid geiriad yn yr adroddiad i adlewyrchu bod cyfarfodydd y Cadeirydd Craffu yn digwydd yn chwarterol.
- Roedd y Pwyllgor yn pryderu y gallai fod rhywfaint o wybodaeth yr hoffai Aelodau'r Pwyllgor ei hadolygu nad yw'n dod i Graffu fel mater o drefn yn unol â'r Cylch Gorchwyl.

5 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

**a) Camau Gweithredu**

- Nododd y Cynghorydd Craffu fod un cam gweithredu parhaus ynghylch nifer y preswylwyr sy'n cysylltu â Chanolfan Gyswllt y Ddinas. Dywedodd y Cynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor fod ymateb wedi dod i law gan Swyddogion a ddywedodd "yn anffodus nid yw hon yn wybodaeth rydym yn ei chasglu a byddwn i'n meddwl, os na allant ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, yna mae'n debyg na fyddai ganddynt gyfrif

MCS felly byddai eu galwadau'n cael eu cofnodi fel "gwestai" sy'n golygu na allem eu hadnabod."

- Argymhellodd y Pwyllgor fod nifer y preswylwyr sy'n cysylltu â Chanolfan Gyswllt y Ddinas gan nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau ar-lein yn cael eu cofnodi a'u coladu i wella casglu gwybodaeth a'r canlyniadau sy'n deillio o hynny. Rhoddodd yr Ymgynghorydd Craffu wybod i'r Pwyllgor am adolygiad y Gwasanaethau Cwsmeriaid sydd i'w gynnal a gellir casglu gwybodaeth yno.

**b) Diweddariad ar y Flaenraglen Waith**

Cyflwynodd y Cynghorydd Craffu y Flaenraglen Waith a nododd nad fu unrhyw newidiadau.

6 **Digwyddiad Byw**

Cliciwch yma i wylio'r recordiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.51 am